NODIADAU

GWERS TGAU OPEN DOORS:

BETH YW ERLEDIGAETH? PAM FOD HYN YN BROBLEM?

BWRIAD: Cyflwyno'r cysyniadau o ryddid crefyddol ac erledigaeth gan drafod pam eu bod yn broblemau mor ddifrifol.

Bydd y wers hon yn cwrdd â'r gofynion cwricwlwm canlynol:

AQA: Rhyddid mynegiant crefyddol, hawliau dynol, rhagfarn a gwahaniaethu oherwydd crefydd a chred.

EDEXCEL: Problemau a wynebir gan yr eglwys sy'n cael ei herlid.

OCR: Y ffordd mae'r Eglwys yn cael ei herlid yn yr unfed ganrif ar hugain.

WJEC EDUQAS: Sensoriaeth, rhyddid mynegiant crefyddol.

DISGWYLIADAU'R WERS

P'un ai eich bod chi'n rhywun sy'n dysgu'n rheolaidd neu'n rhywun sy'n newydd i waith yr ysgol, mae'n bwysig gosod disgwyliadau ar gyfer y wers o'r dechrau. Mae hyn yn arbennig o hanfodol wrth drafod ffydd gan ei bod yn bwnc a allai fod yn un emosiynol i rai.

Efallai yr hoffech gychwyn y wers gyda pharagraff fel yr un isod er mwyn nodi'n glir beth yr ydych yn ei ddisgwyl gan y disgyblion.

Helo fy enw i yw _____. Heddiw, fel rhan o'ch gofynion TGAU, rydym yn mynd i drafod erledigaeth grefyddol.

Nawr, rwy'n ymwybodol bod trafod ffydd yn gallu bod yn bwnc sensitif gan fod gennym, yn aml, brofiadau a safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r pwnc hwn. Fel rhan o'r sesiwn heddiw, rydym yn mynd i ofyn i chi rannu eich syniadau ac rydym yn mynd i'ch cael chi i wneud gwaith gyda phartner ac mewn grŵp.

Wrth gychwyn, rwy eisiau esbonio disgwyliadau'r wers hon yn glir wrthych. Rwy'n disgwyl i bob disgybl yn y dosbarth hwn i:

- Wrando ar eich gilydd
- Barchu eich gilydd – hyd yn oed pan mae gennych safbwyntiau gwahanol
- Gymryd rhan yn y sesiwn – i gymryd rhan ym mhob elfen o'r wers

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD CYCHWYNNOL

RHYDDID CREFYDDOL / *5 MUNUD*

Cyflwyno rhyddid crefyddol fel pwnc – gofyn i'r disgyblion ysgrifennu eu diffiniad nhw o beth maent yn ei feddwl yw ystyr 'rhyddid crefyddol'. Yna, gofyn am adborth ganddynt.

Efallai yr hoffech chi ddefnyddio'r datganiad isod o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i roi diffiniad cynhwysfawr iddynt.

Rhyddid crefyddol: *Yr hawl i ymarfer pa bynnag grefydd yr ydych yn ei dewis.*

"Y mae gan bawb hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; fe gynnwys hyn ryddid iddynt newid eu crefydd neu eu cred, a rhyddid hefyd, naill ai ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, yn gyhoeddus neu'n breifat, i amlygu eu crefydd neu ei gred trwy addysgu, arddel, addoli a chadw defodau."
Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

GWEITHGAREDD 1

CYFLWYNIAD I ERLEDIGAETH / *5 MUNUD*

Anogwch eich disgyblion i gymryd rhan yn y cwis hwn trwy godi eu dwylo, trwy glapio neu trwy ddweud pa ateb maent yn ei gredu sy'n gywir.

CWIS

1. Faint o boblogaeth y byd sy'n profi erledigaeth grefyddol?
- **a.** 11%
- **b.** 22%
- **c.** 33%

Yn ôl adroddiad* gan Swyddfa Dramor y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, mae tua chwarter o boblogaeth y byd yn wynebu rhyw fath o erledigaeth grefyddol.

**Adolygiad Annibynnol Esgob Truro ar ran Ysgrifennydd Tramor y DU a'r Gymanwlad er mwyn cefnogi Cristnogion sy'n cael eu herlid.*

2. Pa grefydd sy'n profi'r mwyaf o erledigaeth ledled y byd?
- **a.** Iddewiaeth
- **b.** Cristnogaeth
- **c.** Islam

Yn ôl yr un adroddiad, mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n annibynnol oddi ar unrhyw lywodraeth (NGOs) yn amcangyfrif fod 80% o erledigaeth grefyddol y byd yn erbyn Cristnogion.

3. Pa wlad yw'r lle mwyaf peryglus i fod yn Gristion?
- **a.** Gogledd Corea
- **b.** Iran
- **c.** Syria

Gorffennwch y rhan hwn o'r wers trwy wylio Fideo Rhestr Gwylio'r Byd Open Doors: Y Deg Uchaf*

**Mae'r fideo hwn wedi ei baratoi ar gyfer cynulleidfa o Gristnogion felly efallai y byddai'n beth da esbonio cyn gwylio'r fideo ei fod wedi'i recordio gan sefydliad Cristnogol sy'n ceisio helpu Cristnogion i ddeall beth yw erledigaeth.*

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD 2

CANOLBWYNTIO AR OGLEDD COREA / *20 MUNUD*

Ar ôl gwylio'r fideo, gofynnwch i'r disgyblion i ysgrfiennu o leiaf 5 ffordd wahanol mae Cristnogion yn cael eu herlid.

- Ddim yn cael mynd i'r eglwys/capel yn gyhoeddus
- Cael eich gwylio gan ysbïwyr
- Ymosodiadau treisgar
- Llofruddiaeth
- Arestio/carcharu
- Gorfod cadw eich ffydd yn gyfrinach – dim rhyddid
- Cael eich cyhuddo ar gam o gabledd neu eu carcharu yn dilyn cyhuddiadau ffug
- Trais/gwrthwynebiad gan eich teuluoedd
- Gorfodi i ffoi neu i farw
- Anfon i wersyll llafur
- Ddim yn cael ymarfer eich crefydd o gwbl

Nid yw'r rhain ar y fideo, ond gellir sôn amdanynt:

- Atal rhag derbyn addysg/rhag cael eich cyflogi
- Cael eich gwawdio/eich cam-drin
- Cael eich amddifadu rhag hawliau sylfaenol fel cymorth brys neu ofal meddygol

Gofynnwch i'r disgyblion i ddarllen y wybodaeth am Ogledd Corea a gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau canlynol mewn parau:

Pa grefyddau sy'n gyfreithlon yng Ngogledd Corea?
Ddim un – mae'n rhaid i bawb addoli teulu'r Kim.

Pam fod Cristnogion yn cael eu herlid yng Ngogledd Corea?
Oherwydd eu bod yn dewis addoli Duw yn hytrach na theulu'r Kim.

Beth yw'r bygythiad mwyaf i bobl sy'n dewis bod yn Gristnogion yn gyfrinachol?
Cymdogion – yn ôl rhai, mae tua thraean o boblogaeth y wlad yn ysbïwyr sy'n gweithio i'r llywodraeth.

Sut mae Cristnogion yn cael eu herlid yng Ngogledd Corea?
Mae ysbïwyr yn eu gwylio, maent yn cael eu harestio, eu carcharu, eu curo, eu hanfon i wersylloedd llafur a'u lladd.

Os oes gennych amser, gwyliwch Fideo Kim Sang Hwa ynglŷn â dod o hyd i Feibl cuddiedig.

Gorffennwch y rhan hwn trwy ofyn i'r disgyblion i ystyried petaent yn fodlon ymarfer crefydd yn gyfrinachol mewn gwlad fel Gogledd Corea.

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

GWEITHGAREDD 3

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID? / *20 MUNUD*

Un enghraifft yw Gogledd Corea, ond mae nifer o resymau gwahanol pam fod Cristnogion yn cael eu herlid am eu ffydd.

TASG CYSYLLTU: Gosodwch daflenni gwybodaeth ynglŷn â'r chwe gwlad o gwmpas yr ystafell. Gofynnwch i'r disgyblion i fynd o gwmpas yr ystafell i ddarllen y wybodaeth cyn ceisio cysylltu'r rhesymau pam fod Cristnogion yn cael eu herlid gyda'r gwledydd cywir.

Efallai y byddai'n dda gwneud hyn mewn parau neu mewn grwpiau bach gan ofyn i bob grŵp rhoi adborth i'r dosbarth ynglŷn â'r hyn maent wedi ei ddysgu ar ôl iddynt gyflawni'r dasg.

Mewn rhai gwledydd, mae'r arweinwyr eisiau cael eu trin fel duwiau – mae Cristnogion yn gwrthod gwneud hyn ac felly maent yn cael eu gweld fel gelynion i'r wladwriaeth.

- Gogledd Corea

Mae rhai gwledydd yn mynnu mai'r un peth yw crefydd a hunaniaeth genedlaethol. Felly, maent yn gweld Cristnogion fel pobl sydd wedi gwrthod eu gwlad a'u hunaniaeth. Mae hyn yn gallu gwneud pobl yn gandryll.

- India
- Pacistan

Mae Cristnogion yn gallu bod yn dargedau hawdd – mae Cristnogaeth yn cael ei weld fel crefydd Orllewinol, er iddi gychwyn yn y Dwyrain Canol. Mewn nifer o wledydd mae bod yn Gristion yn golygu perthyn i'r dosbarth cymdeithasol isaf sy'n golygu addysg wael, llai o gyfleoedd gwaith a chael eich trin fel dinesydd israddol.

- Tsieina

Mae troi at Gristnogaeth yn cael ei weld fel brad yn erbyn y grefydd sy'n cael ei derbyn yn eich cymuned/gwlad – gall eich penderfyniad gael ei weld fel un ymosodol ac felly mae nifer yn ymateb i'ch dewis mewn ffordd ymosodol.

- Algeria

ADOLYGU

5 MUNUD

- **Gofynnwch i'r disgyblion os ydynt yn cofio beth yw diffiniad "rhyddid crefyddol."**
- **Gorffennwch y sesiwn trwy wahodd y disgyblion i ysgrifennu ateb sy'n esbonio pam fod rhyddid crefyddol yn beth mor bwysig.**

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

TAFLEN WYBODAETH GOGLEDD COREA

Mae Gogledd Corea wedi bod ar frig Rhestr Gwylio'r Byd ers 2002. Dyma'r lle mwyaf peryglus i fod yn Gristion o hyd. Mae'n rhaid i nifer o Gristnogion gadw eu ffydd yn gyfrinach - hyd yn oed oddi wrth eu teuluoedd eu hunain.

Mae Open Doors yn amcangyfrif bod tua 300,000 o Gristnogion yn byw yng Ngogledd Corea: gwlad sydd â phoblogaeth o 25.7 miliwn. Mae'n anodd iawn gwybod faint yn union o gredinwyr sy'n byw yng Ngogledd Corea gan fod yn rhaid iddyn nhw gadw eu ffydd yn gwbl gyfrinachol. O'r 300,000 hwn, mae Open Doors yn amcangyfrif bod rhwng 50,000 i 70,000 o Gristnogion wedi cael eu carcharu mewn gwersylloedd llafur ofnadwy oherwydd eu ffydd. Mae'n annhebygol y bydd y Cristnogion hyn byth yn cael eu rhyddhau.

Pam fod Cristnogion yn cael eu herlid?
Mae unrhyw un sy'n credu mewn awdurdod arall oni bai am deulu unbenaethol y Kim yn cael ei weld fel gelyn i'r wladwriaeth. Mae Kim Jong-un a'i deulu yn cael eu haddoli fel duwiau ac mae'n rhaid hongian posteri o Kim Jong-Un ym mhob cartref ac ysgol. Mae'r sawl sy'n dilyn unrhyw ffydd mewn perygl difrifol o gael eu lladd neu eu carcharu fel troseddwyr gwleidyddol - ac, os cânt eu darganfod, mae eu teuluoedd hefyd yn cael eu carcharu.

Ni all y rhan fwyaf o Gristnogion Gogledd Corea hyd yn oed sôn wrth eu teuluoedd eu hunain am eu ffydd. Ni sylweddolodd Sang-Hwa fod ei mam a'i thad yn Gristnogion nes ei bod hithau bron yn ei harddegau. Dywedodd: "Nid oedd fy rhieni'n gallu rhannu unrhyw straeon Cristnogol gyda fi na'm brodyr a chwiorydd. Mae'n rhy beryglus. Gall plentyn ddatgelu ffydd ei rieni ar ddamwain. " Weithiau, mae hyd yn oed athrawon yn gofyn i blant i roi gwybod iddynt am ffydd eu rhieni. Os oes rhywun yn darganfod eich bod yn Gristion yng Ngogledd Corea, mae'r canlyniadau yn drychinebus.

"Mae gennym ddywediad yng Ngogledd Corea," meddai Sang-Hwa. "'Pan fydd tri ohonom yn cwrdd, mae un ohonom yn ysbïwr sy'n mynd i adrodd yn ôl i'r llywodraeth.'" Mae awdurdodau Gogledd Corea yn cadw rheolaeth lem gan fod ganddynt rwydwaith eang o ysbïwyr. Mae hyn yn golygu mai dim ond ychydig o weithgareddau'r wlad sy'n digwydd heb gael eu monitro gan y llywodraeth.

Os bydd y llywodraeth yn darganfod eich bod yn Gristion, mae'n debygol y cewch eich anfon i wersyll llafur. Nid yw'r rhan fwyaf o'r carcharorion hyn byth yn cael eu rhyddhau ac mae'r amodau'n warthus gan fod llafur gorfodol, artaith a diffyg bwyd yn bethau cyffredin.

Ni ellir gorbwysleisio pa mor llym yw awdurdodau Gogledd Corea gan eu bod yn mynnu ufudd-dod a theyrngarwch llwyr gan eu pobl. Mae cyrchoedd yr heddlu i arestio dinasyddion sydd â 'syniadau cyfeiliornus' wedi cynyddu ac mae'r wlad gyfan yn cael ei rheoli trwy godi ofn ar ei phobl.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

GOGLEDD COREA

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?

Mae Cristnogion yn cael eu gweld fel gelynion i'r wladwriaeth oherwydd eu bod yn meiddio credu mewn awdurdod sy'n uwch na theulu'r Kim. Mae cyfundrefn Gogledd Corea yn mynnu teyrngarwch ac ufudd-dod llwyr ac mae teulu'r Kim yn cael eu haddoli fel duwiau. Rhaid hongian portreadau o'r teulu ym mhob cartref ac ysgol. Y geiriau cyntaf y mae'n rhaid i rieni eu dysgu i'w plant yw 'Diolch, Fy Nhad Kim Il-sung'.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

INDIA

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?

Mae llywodraeth India yn cael ei harwain gan blaid genedlaetholgar Hindŵaidd y BJP sy'n credu bod Hindŵaeth yn rhan hanfodol o hunaniaeth genedlaethol India. Yn gyson, nid yw'r llywodraeth yn ymateb pan mae pobl yn ymosod ar y rhai sy'n dilyn crefydd wahanol.



opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

PACISTAN

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?



Mae Pacistan yn gymdeithas Islamaidd gref. Mae grwpiau Islamaidd radical yn dod yn fwyfwy dylanwadol ac mae'r pleidiau gwleidyddol, y fyddin a'r llywodraeth yn gwrando arnyn nhw. Mae bod yn ddinesydd ym Mhacistan hefyd yn golygu bod yn Fwslim. Mae Cristnogion yn aml yn cael eu targedu gan eithafwyr ac maent yn cael eu trin fel pobl 'aflan' gan y gymdeithas yn gyffredinol.



opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

YR AIFFT

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?

Mae'r Aifft' yn genedl Islamaidd gref. Mae ychydig llai na 90 y cant o boblogaeth yr Aifft yn Fwslimiaid Sunni.

Mae'r Arlywydd al-Sisi wedi galw ar ddinasyddion y wlad i ymladd yn erbyn radicaliaeth ac i gyflwyno diwygiadau mewn dysgeidiaeth Islamaidd. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig a thlawd, mae imamau radical a grwpiau Islamaidd llai goddefgar yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Mae Cristnogion yn arbennig o fregus gan eu bod yn lleiafrif bach a diymadferth. Mae'r llywodraeth yn ymdrechu i atal y duedd hon ond nid yw eu hymdrechion wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

TSIEINA

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?

Nod Plaid Gomiwnyddol Tsieina yw amddiffyn ei phŵer trwy sicrhau undod cenedlaethol - gan gynnwys rheoli pob crefydd. Ers i'r Blaid Gomiwnyddol gymryd rheolaeth o statudau crefyddol y wlad, mae grwpiau crefyddol wedi cael eu trin yn llawer llymach. Mae Cristnogion yn cael eu targedu'n benodol gan mai nhw yw'r grym cymdeithasol mwyaf yn Tsieina nad yw'n cael ei reoli gan y wladwriaeth.

opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors

ALGERIA

PAM FOD CRISTNOGION YN CAEL EU HERLID?



Mae Cristnogion o gefndir Mwslimaidd yn wynebu pwysau gan eu teuluoedd a'u cymunedau sy'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw fyw fel Cristnogion. Mae'r wladwriaeth hefyd yn cyfyngu ar ryddid y Cristnogion trwy fiwrocratiaeth gyfreithiol a gweinyddol sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt fyw fel Cristion. Mae teuluoedd hefyd yn gyfrifol am erlid Cristnogion pan mae aelod o'u teulu yn troi o Islam at Gristnogaeth. Mae arweinwyr eglwysig hefyd wedi sôn bod menywod sydd wedi troi o Islam at Gristnogaeth yn cael eu harestio gan eu teuluoedd pan maent yn dod i wybod am eu ffydd.



opendoorsuk.org
inspire@opendoorsuk.org
+44 (0)1993 460015

@opendoorsuk
Open Doors UK, PO Box 6,
Witney, Oxon, UK, OX29 6WG

© Hawlfraint 2021 Open Doors. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1125684, yr Alban SC043710 a Gweriniaeth Iwerddon 20140984

Open Doors